

Nodiadau CGGC

Cyfarfod y sector gwirfoddol gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Dydd Mercher 8 Rhagfyr, 11.15am-12pm

Nodiadau

Mynychwyr

Sector gwirfoddol

- Clair Swales, PAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys)
- Dan Roberts, Canolfan Cydweithredol Cymru
- Donna Coyle, Canolfan Cydweithredol Cymru
- Faye Patton, Gofal a Thrwsio Cymru
- Gemma Lelliot, CTA (Cymdeithas Cludiant Cymunedol) Cymru
- Kate Griffiths, Y Groes Goch Brydeinig
- Thomas Davies, Macmillan
- Simon James, Interlink RCT
- Kate Young, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- Katie Till, Cancer Research UK
- David Cook, CGGC
- Ruth Marks, CGGC
- Lucy Wilkins, CGGC

Llywodraeth Cymru

- Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lynne Neagle, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
- Albert Heaney
- Carlotta Lami
- Kate Edmunds
- Shelley Davies
- Ian Turner
- Ruth Parness

Croeso a chyflwyniadau

Nododd Ruth bwysigrwydd cryfhau'r gwaith o integreiddio gwirfoddoli mewn cynlluniau gofal a gwasanaethau. Nododd gyfarfodydd defnyddiol yn ddiweddar rhwng y grŵp a Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Nododd pa mor bwysig oedd hi i'r sector gwirfoddol gael ei ymwreiddio mewn

gwydnwch, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Rhoddodd sylwadau ar waith y TSPC ar gyberthnasau â'r llywodraeth leol.

Diolchodd y Gweinidog i'r sector am eu gwaith anhygoel yn ystod y pandemig, gan ddweud na fyddai Cymru wedi dod drwyddi heb eu hymdrechion.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- *Pwysigrwydd y Ddeddf, a rôl y sector o'i mewn i gefnogi gwaith atal ac ymyrraeth gynnar*
- *Sicrhau bod llesiant, a rôl y sector o gefnogi llesiant, yn cael eu hintegreiddio i mewn i wasanaethau iechyd a gofal*

Siaradodd Kate Griffiths am yr angen i wella'r gwaith o gydlynu gwirfoddolwyr yn ystod argyfyngau – Mae'r Groes Goch yng Nghymru wedi derbyn cyllid Gwirfoddoli Strategol gan Lywodraeth Cymru i arwain prosiect yn y maes hwn, gan edrych ar fframwaith ar gyfer cyrff statudol a'i sector gwirfoddol.

Siaradodd Clair am bwysigrwydd rolau'r hwyluswyr iechyd a gofal o fewn Cyngorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru a'r angen i ymdrin ag iechyd a gofal yn y sector gwirfoddol mewn modd strategol. Mae papur yn cael ei lunio ar hyn. Ni ddylid tanbriso rolau gofalu, ac mae'n bwysig gweithio gyda phartneriaid statudol i gydlynu ymatebion lleol. Gofynnodd am gyfarfod gyda Llywodraeth Cymru am hyn. Dywedodd Shelley ei bod yn edrych ymlaen at weld y papur ac edrych ar gyfleoedd gyda Clair.

Siaradodd Wynne am waith cymunedau ffydd yn y maes iechyd meddwl ac iechyd.

Trafododd Donna brosiect gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ar ddylanwadu ar newid mewn arferion caffael a phwysigrwydd y Ddeddf. Dylid prif ffrydio egwyddorion gwerth cymdeithasol i mewn i wasanaethau gofal – gall gynnig manylion ar sut i wneud hyn i'r llywodraeth a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Gallai cynllun gweithredu sy'n seiliedig ar fuddsoddi mewn cymunedau ddod â'r meysydd gofal sylfaenol, gofal meddyliol a gofal cymdeithasol ynghyd.

Amlygodd Dan lansiad Newid, a phwysigrwydd digidol ar gyfer y sector gwirfoddol.

Amlygodd Gemma waith PIVOT ar helpu pobl i gael help mewn cymunedau yn hytrach na 'gwaethygu' mewn ysbyty. Fodd bynnag, mae pryder ynghylch ei gyllid tymor byr ac na fydd yn gallu ateb y galw cynyddol.

Cam gweithredu:

Clair i ddosbarthu papur i'r grŵp a Llywodraeth Cymru

Rhannu astudiaethau achos gyda swyddogion

Cyllid – sicrhau bod y sector yn cael ei gynnwys ym manylion a chyflwyniad y Gronfa Buddsoddi Refeniw.

Nododd Simon fod llawer o gyllid yn parhau i gael ei ddyrannu heb ofyniad i weithio mewn partneriaeth, sy'n gallu arwain at ddyblygu gwaith. Gofynnodd a ddylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael eu hysbysu cyn i gyllid cael ei ddsbarthu er mwyn osgoi hyn. Rhaid i gyllid fod yn strategol ac yn gynaliadwy. Ychwanegodd y dylai fod rhwydweithiau'n cysylltu cymunedau â phrosesau casglu tystiolaeth Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Kate mai un o brif ofynion y grŵp oedd i'r sector gwirfoddol gael ei gydnabod o ran cynllunio – er enghraifft, wrth gynllunio ar gyfer cyfyngiadau sy'n ymwneud ag iechyd cyhoeddus, cyfleusterau'r sector gwirfoddol yn aml yw'r rhai cyntaf i gael eu cau a'r rhai olaf i'w hail-agor, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i'r sector gynnig cymorth i bobl, ac mae hyn yn effeithio'n negyddol ar yr agenda atal. O ran cyllid, dywedodd fod cyfarfodydd defnyddiol wedi'u cynnal i edrych ar y canlyniadau dysgu o'r Gronfa Gofal Integredig a helpu i lunio dulliau integredig o ymdrin â ffrydiau cyllido. Dylai'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn gydrannau allweddol o'r gwaith adfer. Atgoffodd y cyfarfod fod y sector yn awyddus i gefnogi Llywodraeth Cymru yn ei gwaith.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod hi'n dda cael ein hatgoffa o ba mor wych yw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Un o'r prif faterion yw cael digon o bobl i reoli gofal cymdeithasol. Mae'n hanfodol fod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cydweithio ac yn gwrando – byddant yn cael eu cryfhau ac yn dod yn fwy effeithiol.

Diolchodd y Dirprwy Weinidog lechyd Meddwl a Llesiant i'r sector am ei waith yn ystod y pandemig. Mae'n awyddus i beidio â chael dull rhy feddyginiaethol o ymdrin ag iechyd meddwl, ac mae'r sector yn allweddol i hynny.

Dywedodd y Gweinidog y bydd cylchau cyllido tair blynedd o flwyddyn nesaf ymlaen. Mae ychydig o'r £43 miliwn a glustnodwyd i gefnogi gofal cymdeithasol wedi'i neilltuo ar gyfer y sector – bydd mwy ar gael cyn mis Ebrill os hysbysir syniadau ymarferol. Mae sgysiau ar y gweill â Byrddau lechyd – mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb yn mynd iddyn nhw'n uniongyrchol, a hwythau'n cael cyfarwyddyd i ryddhau ychydig o'r arian. Dylai Byrddau lechyd fod yn symud i'r maes ataliol, ond mae eraill yn gwneud gwaith ataliol yn well am y tro. Mae angen sgysiau difrifol ynghylch hyn, ac mae angen ymwreiddio cydberthnasau.

Nododd y Gweinidog fod y Gronfa Gofal Integredig, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac ati yn hen ffasiwn ac yn cymryd amser hir i ddod i benderfyniadau. Mae hi eisiau i'r sector fod yn rhan o'r broses benderfynu hon, ond ni ellir arafu'r system ymhellach. Gofynnodd i'r grŵp ystyried sut gallai'r sector fod yn rhan o'r system a gwneud y broses yn gyflymach ar yr un pryd. Mae hyn yn angenrheidiol, neu fe allai'r sector gael ei gau allan.

Cam gweithredu

Sector i drafod cynnig y Gweinidog ac ymateb i'r swyddogion.